y Dinesydd

CYLCHGRAWN NEWYDDION CYMRAEG CAERDYDD RHIF 188 13 TACHWEDD 1992 65c

**£100 i'w ennill i'r Nadolig!** *Tudalen 5*

# Adroddiad newydd yn bygwth dyfodol y Dinesydd

## SYLW GOLYGYDDOL

**Mae dyfodol y Dinesydd unwaith eto yn y fantol yn sgil argymhellion adroddiad newydd gan Gymdeithas Papurau Bro Cymru.**

Byrdwn yr adroddiad, a gyhoeddwyd ar 5 Tachwedd, yw y dylai'r papurau bro gefnogi menter i sefydlu cylchgrawn Cymraeg misol newydd a fyddai'n fodd i ddenu incwm hysbysebu ehangach i'r wasg Gymraeg. Byddai'r cyhoeddiad newydd, Cymru Heddiw, yn atodiad i'r holl bapurau bro a fyddai'n sicrhau cylchrediad o 70,000 i'r cylchgrawn – sy'n cyfateb â chylchrediad y Western Mail.

Un o amcanion Cymru Heddiw fyddai chwyddo incwm hysbysebu y papurau bro, drwy gyfrannu tua £1000 y flwyddyn i'r papurau unigol.

Er hynny, mae'r datblygiad arfaethedig yn fygythiad gwirioneddol i'r Dinesydd am ei bod yn fwy na phosib y byddai Cymru Heddiw yn godro nifer fawr o'r un hysbysebwyr sydd ar hyn o bryd yn dewis prynu lle yn y Dinesydd. Go brin y bydd yr hysbysebwyr hynny'n dymuno hysbysebu ddwywaith – yn y Dinesydd ac yn yr atodiad.

Mae'r pryder yn fwy byth o gofio mai hysbysebion yn unig i bob pwrpas sy'n talu costau cynhyrchu'r Dinesydd. Gwerir bron i £20,000 yn flynyddol i gynhyrchu 4000 o gopiau o'r Dinesydd ddeng waith y flwyddyn i'n 14,000 o ddarllenwyr. Mae hyn yn golygu bod y Dinesydd eisoes ymhlith cylchgronau mawr Cymru, er nad oes sawl un o'n cyrff cenedlaethol yn barod i gydnabod hynny a'n defnyddio fel rhan o'u harf marchnata.

Ers bron i ddwy flynedd bellach datblygwyd ochr werthiant y Dinesydd yn ehangach nag erioed. Ymddengys bod y gwaith hwnnw ar fin ei ddymchwel gan fenter na fydd gan y Dinesydd ddim dewis ond bod ynghlwm wrtho.

Nid lansio cylchgrawn Cymraeg arall sy'n poeni'r Dinesydd. Y broblem yw y bydd Cymru Heddiw yn atodiad hysbysebu na fydd yn dod ag incwm digonol i gydbwyso'r incwm hysbysebu y mae'r Dinesydd yn rhagweld ei golli.

Mae'n debygol iawn y daw Cymru Heddiw i fodolaeth hwyr neu'n hwyrach, a gyda hynny bydd dyfodol y Dinesydd mewn perygl.

Os yw'r dyfodol i fod yn fwy disglair mae'n hanfodol eich bod chi, ddarllenwyr y Dinesydd – sydd wedi mwynhau'r papur yn rhad ac am ddim ers 1973 – yn sylweddoli bod angen eich cymorth ymarferol ar y Dinesydd nawr er mwyn gallu parhau â chyhoeddi'r cylchgrawn yn y dyfodol.

Mae'r nifer ohonoch sydd wedi ymateb i apêl y Dinesydd drwy ymgyrch Dinesydd 2000 yn waradwyddus o isel. Os nad yw'r sefyllfa honno'n newid yn eithriadol dros y chwe mis nesa, fydd gan gyhoeddwyr y Dinesydd ddim dewis ond ystyried o ddifri dod â chyhoeddi'r cylchgrawn i ben.

Mae'r dyddiau pan all darllenwyr y Dinesydd gymryd y cylchgrawn yn ganiataol eisoes wedi diflannu. Mae ffurflen danysgrifio Dinesydd 2000 yn cael ei hargraffu ar dudalen 10 unwaith eto. Nid Cymru Heddiw yn unig sy'n bygwth dyfodol y Dinesydd. Hwyrach bod difaterwch yn waeth gelyn.

## HANNER AWR A MILLTIR O GYMRY



*• Dyma'r olygfa ar hyd rhai o brif strydoedd Caerdydd ddydd Sadwrn Calan Gaeaf pan ymlwybrodd 3000 o gefnogwyr y Gymraeg o Erddi Sophia i'r Swyddfa Gymreig yn galw am Ddeddf Iaith gadarn. Hon oedd un o'r ralïau mwyaf a welodd Caerdydd erioed, gyda chwt y golofn dal yng Ngerddi Sohpia pan oedd y pen yn cyrraedd Parc Cathays hanner awr o'u blaen. Dywedodd yr Athro Hywel Teifi Edwards pe na bai'r ddeddf yn ateb y galw fyddai dim oedi cyn mynd â'r rali i Lundain.*

# ANRHEG NADOLIG I'R DINESYDD


**YN BAROD**




***1991***

*Dan sêl Ansawdd Aur yr EVA*

**PANT TEG**

ARCHEBION
CAERDYDD
753834

69 Station Road
Llanisien

**yDinesydd**

**BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.**

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH CATRIN YN SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD

**0222 598243**

***Cyfraddau hysbysebion sylw (mono):*** tudalen lawn £350; hanner tudalen £180; chwarter tudalen £100; wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7
***Cyfradd hysbysebion cyhoeddi:*** £15

**Rhiannon**

GEMWAITH YN Y CYFRWNG CELTAIDD
**GWAITH CREFFTWYR CYMRAEG SYDD AG ENW RHYNGWLADOL**

ARIAN NEU AUR 9ct: Ein cyfres eang o gynlluniau Celtaidd unigryw gan Rhiannon – nifer o gynlluniau newydd eleni.
Tlysau, Clustdlysau, Breichledau, Modrwyau
AUR CYMRU 9ct A 18ct: Tlysau, Clustdlysau, Modrwyau Priodas plaen a Cheltaidd
(Pob un o'r rhain gyda thystysgrif wedi ei rhifo a'i llofnodi)
Crysau T – llewys byr neu lewys hir. Cynlluniau lliwgar gan Rhiannon (newydd eleni)

GOSTYNGIAD 10% AR AUR SAFONOL HYD Y NADOLIG
GWASANAETH DRWY'R POST – CATALOG AR GAIS
**FFÔN TREGARON (09744) 415**
**GEMWAITH RHIANNON, TREGARON, DYFED SY25 6JL**

**I'W GOSOD**

Ystafelloedd yn y Rhâth
£25 yr Wythnos

**Cysyllter â 464415**

*Lligan*

Gwasanaethau cyfieithu
Cymraeg a Saesneg
Yn rhesymol a chyflym
Dogfennau, llythyrau,
hysbysebion ac yn y blaen
***0222 598243***

# Surrexit

## MAE'R NEGES YN GLIR

*DYLUNIO*
*CYHOEDDI*
*GOLYGU*
*HYSBYSEBU*
*MARCHNATA*
*CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS*

***0222 578772***

*fax 0222 567639*
*PARC AFON BRIDGE ROAD YSTUM TAF CAERDYDD CF4 2JL*

celtic
HENDERSON CROSTHWAITE

BROCERIAID STOC A RHEOLWYR
BUDDSODDI ANNIBYNNOL

Yr enw newydd ym myd Broceriaid Stoc yng Nghymru

## "Yng ngheg y sach y mae cynilo"

**Yn gyntaf, dewch i siarad â ni**

**Dafydd Hampson-Jones**

**neu Howard Bailey**

Tŷ Penhill, Heol Penhill, Caerdydd, CF1 9UP
ffôn (0222) 394021/6 ffacs (0222) 228452

Mae Celtic Henderson Crosthwaite yn enw masnachol Henderson Crosthwaite Cyf. Mae Henderson Crosthwaite Cyf yn rhan o grŵp Guinness Mahon Holdings ccc., yn aelod o Awdurdod Gwarannau a Dyfodolion ac hefyd yn aelod o Gyfnewidfa Stoc Llundain.

# MANYLION AR DUDALEN 10

Y Dinesydd, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL
Ffôn 0222 578772 Fax 0222 567639 Gwerthiant Hysbysebion 0222 598243
Golygydd: Shân Emlyn Cyhoeddwyr: Surrexit Bwrw: Afal Argraffu: Treforest Printing Cyhoeddir â chymorth Cyngor y Celfyddydau © Y Dinesydd 1992

## Cadi Llwyd yn sbecian

Mae Trefor Williams, 78 oed o Bowys, wedi prynu ei bedwerydd-Lada-ar-bymtheg (y car o Rwsia), am ei fod yn gredwr cry mewn Sosialaeth.

Os ydych chi'n teimlo'n ddi-ffwt ar fore Llun, hwyrach mai Ysbyty Guy's yw jest y peth i chi. Maen nhw newydd hysbysebu am "deceased records clerk".

Yn Llangan mae pobol sy'n chwilio am dŷ yn cael cynnig mynwent i gyd-fynd ag e. Yn ôl pob tebyg mae'r eglwys leol ar werth i'w throi'n gartref – ond mae gan unrhyw un o'r plwy sy'n marw yr hawl i gael ei gladdu yn yr ardd gefn.

Mae pobol ddwyieithog yn llawer iawn mwy rhywiol na monoglotiaid, yn ôl ymchwilwyr o Brifysgol Rhufain.

Ac wrth sôn am ryw, cafodd milfeddyg o Grimsby gryn sioc pan ddaethpwyd â Twm y Gath ato am yr op. Darganfyddodd fod Twm hefyd yn Bwsi Mêri Mew. Erbyn hyn mae'r gath unigryw 'ma wedi cael ei sbaddu o'i niwtra.

Mewn papur newydd o Seland Newydd cafwyd yr adroddiad canlynol: "Gwisgai mam y priodfab wisg ddeuddarn piws â het a menyg i gyd-fynd, tra gwisgai mam y briodferch het."

## LLON A'R LLEDDF

- *Ganed merch, Mirain i Eleri ac Eryl Huw Phillips*
- *Ganed merch, Luned i Janet a Marc Evans*
- *Bu farw Trevor Clee ar 2 Tachwedd*




-AC I DDATHLU–FERSIWN ARBENNIG O BACHA HI O'MA'!

CYMDEITHAS YR IAITH

# MEDDIANNU LLYS YN GOSTWNG 'DIRWY'

**MEDDIANNWYD** Llys Ynadon Caerdydd gan 20 o aelodau Cymdeithas yr Iaith yn ystod achos '5 Whitchurch' ar 4 Tachwedd

Roedd pump o aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn sefyll eu prawf am baentio sloganau ar brif swyddfa'r blaid Geidwadol yng Nghymru yn yr Eglwys Newydd ar 7 Hydref.

Gerbron y llys oedd Angharad Tomos, Branwen Evans a Huw Gwyn o Fangor, a Beca Brown ac Olwen Evans sy'n astudio yng Nghaerdydd.

Gwrthododd y pump ateb y cyhuddiadau yn eu herbyn am iddynt wneud cais o flaen llaw am i'r achos gael ei gynnal yn Gymraeg, a'r gwasanaeth hwnnw heb ei ddarparu.

Penderfynodd y llys y byddai'n rhaid ail-gynnal yr achos, ac i'r diffinyddion ddychwelyd deirgwaith i'r llys.

Yn ôl Gill Stephen o Gymdeithas yr Iaith roedd hyn "braidd yn ormodol. O ystyried y gost o £30 y tro i dri o'r diffinyddion deithio o'r Gogledd i Gaerdydd – sy'n gyfystyr â dirwy ychwanegol ar ben y ddirwy y maen nhw'n disgwyl ei gael, penderfynodd Cell Myfyrwyr Caerdydd feddiannu'r llys."

Meddiannwyd y llys gan y myfyrwyr am awr a hanner hyd nes cafwyd ymddiheurad am y diffyg darpariaeth Cymraeg, a chwtogi hyd yr achos i un diwrnod ychwanegol yn unig.

# CRAFU PEN Y PARCIO DWYIEITHOG

**MAE YMGYRCH** Cymdeithas yr Iaith i sicrhau arwyddion dwyieithog ar gyfer system barcio newydd Caerdydd ar fin troi cornel newydd .

Ar ôl ymateb di-hid gan Bernard Richards o adran Gwasanaethau Ffyrdd Sir De Morgannwg ar sail cost, mae Cell Caerdydd wedi sgrifennu at holl gynghorwyr De Morgannwg yn gofyn am i'r mater gael ei drafod yng nghyfarfod neaaf y cyngor.

Dywedodd Bernard Richards nad oedd yn rhaid codi'r arwyddion yn ddwyieithog am nad oedd gan y cyngor bolisi ar arwyddion rhybudd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Cymdeithas yr Iaith hefyd yn gofyn am gyfarfod ag aelodau o'r cyngor er mwyn dechrau amlinellu polisi iaith ar gyfer pob adran o'r cyngor.

Awgrymodd Gill Stephen o Gymdeithas yr Iaith y gallai'r ymgyrch gynnwys protestiadau fel blocâd ceir a difrodi arwyddion.

Yn ôl Bwrdd yr Iaith, maent ar hyn o bryd yn disgwyl eglurhad gan y cyngor ai hwy benderfynodd godi arwyddion uniaith Saesneg, yntau cyfarwyddyd o'r Swyddfa Gymreig sy'n gyfrifol.

Meddai Gareth Jones o'r Bwrdd wrth y Dinesydd "Er i'r Cyngor ddweud wrthym bod taflenni hysbysrwydd am y cynllun parcio ar gael yn Gymraeg ac yn ddwyieithog, y peth mwya gweledol am y cynllun yw'r arwyddion ar y stryd. Ac arwyddion dwyieithog yw'r unig beth sy'n mynd i helpu at godi statws ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg".

***• Ar ôl llwyddiant Steffan Webb o Gymdeithas yr Iaith i ennill iawndal o £8000 gan y Swyddfa Gymreig yn sgil digwyddiad â char y Gweinidog Gwladol Wyn Roberts ym 1986, mae cadeirydd y Gymdeithas, Alun Llwyd, wedi annog y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i ddwyn achos troseddol yn erbyn gyrrwr y car.***

***Honna'r Gymdeithas fod yr achos yn yr Uchel Lys wedi profi bod y gyrrwr yn gyrru'n ddiofal, gan gynnwys peidio â stopio ar ôl bwrw Steffan Webb oddi ar fonet y car, sydd, yn ôl cyfraith gwlad, yn drosedd.***

BUSNES

# CYCHWYN HELPU

**UN O'R BOBOL** sydd wedi cael cyngor busnes o dan gynllun newydd *Dechre Cychwyn* Menter a Busnes yw Eurion Brown.

Sefydlodd Eurion ei gwmni Photex yn y Bontfaen ym mis Awst, yn cynnig gwasanaeth dylunio pamffledi â graffeg a thestun. Mae e hefyd yn gwneud gwaith ffotograffiaeth a gwaith ymgynghorol â chyfrifiaduron.

Er waetha'i sgiliau yn y meysydd hyn, doedd ganddo fe ddim syniad sut i gadw'r llyfrau. Dyna pam aeth at Siân Johnston yn Dechre Cychwyn, ac mae'n blês iawn â'r cyngor a gafodd.

"Roedd hi'n neis cael siarad Cymraeg" meddai. "Cefais gyngor am sut i gadw llyfrau, a help i'w sefydlu. Hefyd, y peth neis yw nad yw'r cyngor yn stopio fanna – maen nhw'n cadw llygad i wneud yn siwr fod pethau'n rhedeg yn esmwyth o hyd."

Mae cyngor Dechre Cychwyn ar gael i unrhyw un sy'n dechrau busnes neu i bobol sydd eisoes yn rhedeg busnes ac angen cyngor ychwanegol am unrhyw agwedd ohono. Y rhif i'w ffonio yw Caerdydd 761314.

**Copi mis Rhagfyr i gyrraedd erbyn 1 Rhagfyr 1992**

# ANRHEG NADOLIG I'R DINESYDD

**ANNWYL DDINESYDD**

## GOLWG CROES

**A GAF I** gywiro un camargraff difrifol yng ngh！olofn Clwb Ifor Bach yn rhifyn mis Hydref y Dinesydd, sy'n awgrymu fod cysylltiad rhwng Golwg a phosteri Saesneg yn hysbysebu cyngerdd gan y grŵp Jess. Mae hynny'n gwbl anghywir ac, yn naturiol, yn gwneud drwg mawr i enw da cylchgrawn fel hwn.

Roedd Golwg wedi cydweithio gyda Jess ar daith mewn ysgolion y llynedd, ac aeth y grŵp eu hunain ati i gynhyrchu posteri – fel yr un a osodwyd yng Nghlwb Ifor Bach. Pan welson ni'r rheiny fe wnaethon ni'n glir nad oedden ni eisiau dim i'w wneud â nhw. Cynhyrchwyd sét newydd o bosteri ar gyfer y daith y llynedd, a'n dealltwriaeth ni oedd bod yr hen rai wedi cael eu taflu.

Gallwch felly ddychmygu ei bod yn gryn sioc i ni glywed fod yr hen bosteri'n cael eu defnyddio nawr. Felly gaf i danlinellu doedd a wnelo Golwg ddim oll â'r gyngerdd na'r poster; doedd gan Jess ddim hawl i ddefnyddio'r poster oedd yn awgrymu fod Golwg yn noddi'r perfformiad; bod Golwg wedi gwrthod caniatad defnyddio'r union bosteri dan sylw; ac mae sens yn dweud fod poster uniaith Saesneg yn mynd yn groes i'r egwyddor sydd y tu cefn i Golwg.

***Dylan Iorwerth, Golygydd Golwg***
***Llanbedr Pont Steffan***

## SIOC IAITH

**BRAF IAWN** oedd gweld cymaint â phedair mil o bobol yn y Rali Genedlaethol dros Ddeddf Iaith Gadarn.

Ond sioc a siom oedd clywed John Elfed Jones ar y radio y dydd Sul yn honi mai dangos eu cefnogaeth i ddrafft mesur Bwrdd yr Iaith oedd pawb yn y Rali. Nid felly fy nghof i o'r diwrnod. Mynnodd siaradwr ar ôl siaradwr Ddeddf Iaith Gadarn, Gynhwysfawr. Does 'na ddim byd cadarn na chynhwysfawr ynghylch drafft mesur Bwrdd yr Iaith.

Nid oes sôn yn y drafft am unrhyw fath o orfodaeth ar y Sector Breifat. Rydym ni a'r Fforwm Iaith wedi datgan dro ar ôl tro bod rhaid i'r Ddeddf gynnwys y Sector Breifat os oes gobaith iddi fod yn effeithiol.

Mae Bwrdd yr Iaith hefyd yn bwriadu rhannu Cymru yn ardaloedd 'Cymraeg' a 'di-Gymraeg', sy'n caniatau i ardaloedd helaeth o'r wlad fod heb unrhyw hawliau ieithyddol. Yn ôl cyfrifiad 1981 mae 133,300 o bobol yn siarad Cymraeg ym Morgannwg a Gwent, a 135,800 yng Ngwynedd. Mae 12,246 o blant Morgannwg a Gwent yn cael addysg Gymraeg, a 11,726 yng Ngwynedd.

Un Gymru sydd. Ddylai 133,300 o bobol gael eu gorfodi i symud o'r de-ddwyrain i gael yr un hawliau â phobol yr ardaloedd 'Cymraeg'?

***Gill Stephen, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg***
***Ty'r Cymry, Caerdydd***

**DEUD FY NEUD**

## HAWL DEWYRTH SAM DIM HAWL I'R CYMRY

### MENNA MEDI



Yn ddiweddar dechreuwyd Gŵyl y Gwyniaid yn y Bala. Pysgod unigryw i Lyn Tegid ydi gwyniad, ond nid wythnos o bysgota oedd hon, ond cyfnod yn llawn gweithgaredde, o'r "hen griw" wedi ymgasglu am gêm beldroed, sgws, sleidie, a dawns werin. Ar ddiwedd y nos roedd tafarn yr Eagles yn orlawn!

Yno fe gwrddais â gŵr 86 oed o Los Angeles efo Cymraeg glên Trefaldwyn, er na chafodd ei eni na'i fagu yng Nghymru! Bernard Evans oedd y gŵr hwnnw – ei daid wedi symud o byllau glo Cymru i Bennsylvania yng nghanol y 19 ganrif, a chysylltiade agos â Phennal a'r Rhondda ganddo.

Bernard oedd y drydedd genhedlaeth ers ymfudo, er hynny roedd yr hen iaith yn reit fyw ganddo. Er mewn oedran mawr, roedd yn parhau i ffermio orenau a lemonau yn y States, ac yn ddigon abal i logi car i yrru rownd Cymru!

Ddechrau Hydref bûm mewn rali Cymdeithas yr Iaith ger y Swyddfa Gymreig i dynnu sylw unwaith eto am yr angen am Ddeddf Iaith gynhwysfawr. Neges y siaradwyr oedd i ni fynnu siarad yr iaith efo pawb a phob sefydliad, ac nad oes raid gofyn am wasanaeth Cymraeg. Mae gennai inne ddigon o brofiad o hynny o beth. Mae angen dipyn o amynedd o hyd wrth ffonio BT – mae'n rhaid aros am siaradwr Cymraeg, neu mae rhywun yn ffonio nôl.

Pam y dylem aros deng munud yn hwy na'r di-Gymraeg, a minne'n talu'r un swm? Credaf y dylem gael llinell Gymraeg ein hunain, ond ymateb un wraig o wasanaeth gwybodaeth BT am hynny, ac ar ôl i mi ofyn am rif i gyfeiriad cyfangwbl Gymraeg, oedd y byddai'n haws deall galwad ryngwladol ac na fyddai digon o ddefnydd o galw am y gwasanaeth! Tybed? A thybed faint ohonoch chi sy'n boddro gofyn am y gwasanaeth hwnnw – mae llawer o fai ar y Cymry eu hunain sydd jest yn derbyn y drefn.

Yn ddiweddar daeth bagiau ail-gylchu drwy'r post, ac ar waelod y daflen wybodaeth Saesneg roedd eglurhad fod cyfieithiad i gael – ond i rywun ofyn. Fe wnês, a bron â difaru ar ôl ei weld. Tybed faint ohonoch chi wnaeth drafferthu? Roedd y daflen yn llawn gwallau gramadeg, trosillythrennol efo iaith hollol ddi-raen. Er mod i'n falch eu bod yn cydnabod yr angen, mae'n sarhad ar yr iaith – a do, dwi wedi ffonio i gwyno am hynny hefyd.

Ar ôl cael eglurhad gan Gyngor y Ddinas, deallais mai cyfieithydd o'r Cyngor Sir ddaru drosi'r daflen ac nid eu cyfieithydd arferol nhw. Wele rai o'r enghreifftiau:

*"Mae Caerdydd yn cynnyrch tua 80,000 pwysau o sbwriel cartrefol y blwyddyn. Yr ydych yn gallu helpu trwy trefnu allan rhan o eich sbwriel am ailgylchu. Am mwy o gwybodaeth ynglyn eich casgliad, trefniad...* "Deall be dwi'n feddwl?

Mynnwch chithe eich hawl.

**COLOFN SHÂN**

## DWY GOES BREN

### SHÂN EMLYN

***"YR ENETH*** a lithrodd ar balmant y dref..." Cael fy nhemtio i roi'r alaw mewn solffa i chi – ond wnai ddim. Ond dyma fy hanes y mis dwytha 'ma.

Oedd, roedd fy ffêr wedi bod yn boenus oddi ar wythnos yr Eisteddfod yn Aberystwyth. Ond styfnig, fel ag yr ydw i, fe geisiais anwybyddu'r boen. Bythefnos yn ôl euthum i briodas merch fy nghymdogion yng Nghoed y Pry, a mwynhau'n arw cyfarfod eto â nifer o gyfeillion clên a charedig, er nad o'r un anian â mi. Bu sefyllian a sefyll hir tu allan i'r eglwys yn Llanisien ac yn y Park Hotel wedyn. Erbyn cyrraedd adre roeddwn fel cripl yn cropian i'm fflat.

Drannoeth. Beth i'w wneud? Fy eneidiau hoff cytûn i gyd yn cynaeafu yng Ngwinllan Panteg. Endaf, fy mrawd, siwr o fod yn brysur a'r merched bach yn mwynhau ei gwmni prin ar yr aelwyd. Meddwl mai ffolineb fyddai mentro yn y car i'r CRI, gan y gwyddwn ym mêr fy esgyrn y gallwn ddod oddi yno ar ffyn bagla. Beth am Elin? Wyddwn i ddim a oedd hi ar y cyfandir, yn Llundain, neu adre ym Mhont-canna.

Dyma fentro ei ffonio. Llais cysglyd yn ateb a rhyw ddwyawr



• Shân Emlyn

yn ddiweddarach fe'm cludodd i'r ysbyty. Ymhen teirawr wele Shân Em ar ei ffyn bagla, ac Elin – yn glanna chwerthin – yn ymlwybro nôl i'r car. Teimlo'n euog fy mod wedi mynd yno fel achos brys a'r X-ray yn profi fy mod wedi torri fy ffêr ers deufis.

Dois i ddim i delerau iawn â'r ffyn bagla. O symud o'r lolfa i'r gegin, darganfod nad oedd gen i law rydd i wneud dim. Yr unig beth amdani oedd cropian i bobman. Ac felly bu!

Yn yr un cyfnod roeddwn wedi ildio i hysbyseb yn y Western Mail ac wedi codi tocyn i fynd ar daith diwrnod i Fenis – dinas y bûm ag awydd ei gweld erioed. Gyda'm styfnigrwydd a'm ffolineb fe fynnais fynd a mwyn-hau i'r eitha, er fy mod i fel cripl unwaith eto yn cyrraedd y Rhws am 10.15pm.

Ar y daith roedd ffrindiau o Benybont ar Ogwr fu'n garedig iawn wrthyf – yn cynnig fy anfon adre o'r Rhws. Erbyn hynny, yn llipa a musgrell, derbyniais eu cynnig hael.

Ond wele fi'n ymlwybro o'r maes awyr, a phwy – yn gwbl annisgwyl – oedd yno yn fy nghyfarfod ond fy ffrindiau triw Nia a Richard Hall Williams. Teimlad cynnes braf, y pâr o Benybont yn barod eu cym-wynas, a'r ffyddloniaid yn eu harbed.

Diwrnod i'w gofio, er na fedrwn drampio o gwmpas Fenis fel y dymunwn. Ond fe gês wefr a blas o fynd, gweld a synhwyro awyrgylch y ddinas ryfeddol. Âf, fe âf eto un ai i Fenis neu unrhyw fan arall, a bryd hynny gobeithio "â'r maglau wedi torri, a'm traed yn gwbl rydd"!

**BUSNES**

## FFORWM BUSNES

***AR 1 MAWRTH*** bydd grŵp o bobol busnes yn sefydlu rhwydwaith o siaradwyr Cym-raeg mewn busnes yng Nghaerdydd. Prif bwrpas y cylch fydd cryfhau'r cysylltiad rhwng pobol busnes yr ardal.

Ar hyn o bryd mae ffurf y rhwydwaith yn cael ei drafod, a gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb ynddo i gysylltu â Siân Johnston ar 761314.

MANYLION AR DUDALEN 10



# CYSTADLEUAETH FAWR DINESYDD Y DOLIG

# £100



## £££ ENWI'R ENWOGION £££

**Gyda'r Nadolig yn nesau, cyfle i chi ennill £100!**

*Y cyfan sydd angen i chi wneud yw adnabod wynebau'r bobol sydd yn y chwech llun isod – tri a gyhoeddwyd yn y Dinesydd mis Hydref a thri newydd i'r mis hwn.*

*Anfonwch eich atebion, ynghyd â'ch enw, cyfeiriad a'ch rhif ffôn, at:*
**Dinesydd y Dolig, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL.**

*Os ydych eisoes wedi anfon ateb ar gyfer lluniau 1, 2 a 3, y cyfan sydd angen i chi wneud y tro hwn yw anfon yr ateb ar gyfer lluniau 4, 5 a 6.*

*Dylai pob ateb gyrraedd y cyfeiriad uchod erbyn 4 Rhagfyr. Bydd enw pawb sy'n cael y 6 llun yn gywir yn mynd mewn i sach Siôn Corn y Dinesydd, a'r enw cyntaf allan fydd yn ennill y brif wobr!*

**Ac os ydych wedi tanysgrifio i Dinesydd 2000 – neu'n gwneud cyn 4 Rhagfyr – bydd eich enw'n mynd i'r sach er mwyn ennill gwerth £50 o win ar gyfer y Nadolig.**

*Mae ffurflen i'w llenwi ar dudalen 10. Bydd enwau enillwyr y ddwy gystadleuaeth yn cael eu cyhoeddi yn rhifyn Dolig y Dinesydd.*

**Caniateir un cais gan bob person. Bydd penderfyniad cyhoeddwyr y Dinesydd yn derfynol.**


















**Dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain, llais Thomas Llyfnwy Thomas oedd yn hudo cynulleidfaoedd radio a theledu yr Unol Daleithiau. Elfed Thomas sy'n olrhain hanes ei lwyddiant**

# O FORGANNWG I AMERICA

**O'R LLU CANTORION** disglair o Gymru wnaeth yrfa gerddorol tu allan i'n gwlad, prin yw'r wybodaeth am yrfa lwyddiannus Thomas Llyfnwy Thomas yn America, neu unrhyw recordiau o'r repertoire eang oedd ganddo.

Fe'i ganed ym Maesteg ym 1911, gan adael y pentre yn blentyn 12 oed pan ymfudodd y teulu i'r Unol Daleithiau, ac ymsefydlu yn Scranton Pennsylvania. Erbyn iddo gyrraedd 21 oed roedd wedi ennill dwy gystadleuaeth genedlaethol, ac wedi cael gwahoddiad gan yr Arlywydd Hoover i'r Tŷ Gwyn yn sgil ei ddethol yn ganwr ifanc mwyaf addawol.

Ym 1937 yn 25 oed, enillodd brif gystadleuaeth yr Opera Metropolitan yn Efrog Newydd, ond gwrthododd gytundeb i'w glymu am saith mlynedd gyda'r Met er mwyn dilyn gyrfa llai sicr ar lwyfan a radio. Ond cyn pen dim ymddangosai ar y radio a'r teledu bedair noson yr wythnos.

Dros gyfnod o chwarter canrif cynhaliodd Thomas L Thomas, ynghyd â'i gyfeilydd personol, drigain o gyngherddau bob blwyddyn ledled America a Chanada. Tystia'r miloedd o raglenni bod ganddo repertoire eang – lieder, caneuon opera, caneuon clasurol yr Eidal, Ffrainc a Sbaen, caneuon y Sipswn, a phob tro alawon Cymraeg.

Fel Thomas L Thomas adnabuwyd ef ym myd y canu proffesiynol, ond ei enw canol Llyfnwy ddefnyddiwyd gan ei deulu a phobol Maesteg a'i gofiai'n blentyn. Meddai ar bersonoliaeth lawen a bywiog, a chanddo ddisgyblaeth lwyr a chadarn. Gwyddai bron i neb fod ei olwg yn wan, a'i fod wedi trefnu pob symudiad ar y llwyfan ymlaen llaw.



Er ei alltudiaeth yn America, roedd Llyfnwy yn Gymro i'r carn, yn ymfalchïo ei fod yn un o feibion Cymru, a hyd diwedd ei oes yn 73 oed ym 1984 cadwodd ei Gymraeg.

Er hynny prin yw'r atgofion ar gof a chadw recordiau yng Nghymru o lais Llyfnwy – er iddo recordio casgliad o alawon gwerin pan fu ar ymweliad â'r wlad hon ym 1956, ac mae'r rheiny erbyn hyn allan o'n gafael ers blynyddoedd.

Prin yw'r atgofion tan nawr. Bellach mae fideo o Thomas L Thomas ar binacl ei yrfa cerddorol newydd ein cyrraedd o'r Unol Daleithiau.

Dyma'r cefndir. Darlledwyd rhaglen *Voice of Firestone* yn America o 1928 hyd 1959. Roedd yn raglen boblogaidd dros ben a gychwynnodd ar y radio cyn symud i'r teledu ym 1946, ac yn cynnwys cerddoriaeth glasurol i'r person cyffredin. Yn cymryd rhan oedd cerddorfa a chorws dan arweiniad cerddor adnabyddus o'r enw Howard Barlow, gyda chantorion enwog o fyd opera neu radio yn unawdwyr. Bu cryn wrthwynebiad pan darodd y rhaglen ei nodyn olaf ym 1959 ar ôl 30 mlynedd o ddiddanu.

Ychydig ar ôl hynny trosglwyddodd Firestone, noddwyr y rhaglen, yr holl dapiau ffilm a fideo i'r New England Conservatory of Music yn Boston, lle'u cadwyd mewn tymheredd arbennig i'w diogelu. Eleni daeth Video Artists International â nifer o gantorion enwog a gyfrannodd i'r rhaglen i sylw'r cyhoedd unwaith eto wrth ryddhau casgliad o dapiau fideo o'r artistiaid.

Un o'r rhai cyntaf a ddetholwyd ar gyfer y casgliad fideo oedd Thomas L Thomas, ac yntau wedi bod yn un o'r prif gyfrannwyr i'r *Voice of Firestone*. Mae'r tâp fideo a gyhoeddwyd yn cynnwys darnau operatig, baledi, caneuon gwerin, a chaneuon adnabyddus o sioeau Broadway.

Mae'r canwr mewn llais rhagorol, ei ddatganiadau o'r darnau operatig â chefnogaeth cerddorfa, corws, gwisg, a chefndir llwyfan yn cyrraedd safonau gwefreiddiol. Mae'r cyfan yn hollol wahanol i'r tynerwch cariadus cyfarwydd i ni sydd wedi arfer â'i ddatganiadau o alawon gwerin.

HANES LLEOL

"DAETH YR ADEG I UN O'R GWŶR GALLUOCAF A MWYAF ATHRYLITHGAR A GODODD CYMRU I ORPHWYS ODDI WRTH EI LAFUR; A GWNAETH HYNNY TACHWEDD 26AIN, 1892, PAN YN LLAWN BEDWAR UGAIN OED! Y GEIRIAU DIWETHAF A DDYWEDODD EFE OEDD **"RWYF YN GWELED! RWYF YN GWELED!"**



# CANRIF O GOFIO MATTHEWS EWENNI

NIA HALL WILLIAMS

**GAN MLYNEDD** union yn ôl, fore Sadwrn 26 Tachwedd, bu farw'r Parch Edward Matthews, sef Matthews Ewenni – un o bregethwyr mawr a mwyaf gwreiddiol ei oes.

Bu'n weinidog ar nifer o gapeli ym Morgannwg, ac ef, ynghyd â'i gyfaill y Parch William Evans Tonyrefail (hen-hen daid Ivor Novello y bydd mwy o sôn amdano yn y rhifyn nesaf) fu'n gyfrifol am ledaenu Methodistiaeth drwy'r sir.

Arferai Matthews bregethu yn nhafodiaith Bro Morgannwg, gan ddefnyddio'i ddoniau dramatig a'i ddychymyg byrlymus i ennyn diddordeb ei gynulleidfa – heb sôn am ei dychryn gydag ambell i floedd annaearol.

Treuliodd ddeng mlynedd ym mhentref Ewenni, a byth ers hynny cysylltir ei enw â'r pentref hwnnw.

Ond hawdd iawn buasai ei ail-fedyddio'n Matthews Treganna am iddo wasanaethu capel Salem yng Nghaerdydd am dair-mlynedd-ar-ddeg (llun isod), pan oedd y capel hwnnw yn Albert Street yng ngorllewin y ddinas ar gyfnod ei thwf mawr yn ystod y ganrif ddiwethaf.

Bu'n byw yn Cowbridge Road mewn tŷ o'r enw Magnolia Villa, enw pwrpasol dros ben o gofio mai ei gymdogion oedd cwmni Treseder, y gwerthwyr planhigion.



Bu farw Matthews Ewenni cyn i Salem symud i'w safle newydd yn Stryd y Farchnad, ond mae 'na stori am ei berthynas â'r safle hwnnw. A stori arall ynglŷn â'r enw arall a ddodwyd arno, sef Arch-gasglwr y De.

Er mwyn datgelu rhai o'r straeon hyn, ac i goffau canmlwyddiant ei farwolaeth, trefnodd aelodau'r Salem 'newydd' gyflwyno rhaglen nodwedd 'Mr Matthews' ar nos Sul, 14 Tachwedd.

Ynddi datgelwyd hanes bywyd y pregethwr mawr ynghyd â dyfyniadau o'i bregethau er mwyn rhoi cyfle i flasu unigrywiaeth arddull y Parch Edward Matthews Ewenni wrth gyflwyno ei neges dros ganrif yn ôl.

# ANRHEG NADOLIG I'R DINESYDD

LYB Y DOL

## CAMPAU CEGINIOL

DAFYDD SAER



**FIS YN DDIWEDDARACH,** dyma ni'n ôl yn yr Hydref, yn myfyrio'n chwerw-felys ar eiriau TH Williams Parry yn ei gyfrol enwog *Cerddi'r Gaeaf*. Yn dilyn thema gynhyrfus fy erthygl ddiwethaf, rwyf eto am sôn am ddigwyddiadau treisiol sy'n nodweddu'r gymdeithas yr ydym wedi ei hetifeddu yn sgîl blynyddoedd o ormes gwleidyddol y Toriaid.

Y tro hwn, fodd bynnag, nid hen wragedd fu'n gyfrifol am y dolur a'r loes, ond plantos bychain. Diniwed, mynd diawl i! Roeddwn yn meindio fy musnes fy hun gerllaw'r ffrosen ffwds ffridjis yn Tesco, pan yn ddiarwybod i mi, rhuthrodd dau blentyn tua deg oed i fyny tu ôl i mi gan wthio troli a'i lond o duniau Spam.

Dychmygwch y pwysau oedd ynddo – tunelli o Spam. Roedd tri thun o Fray Bentos Steak & Kidney Pie ynddo hefyd, sylwais yn ddiweddarach.

Beth bynnag, trawodd y troli fy mharthau ôl â ffasiwn rym nes peri i mi gyflawni campau Olympaidd yn yr awyr cyn glanio ar fy nhrwyn yng nghanol Linda McCartney's Vegetarian Country Pies. Wel, fe ddaw da o bob drwg – roeddwn wedi clywed bod cynhyrchion gwraig y cyn-Chwilen yn dda, a dyma fi nawr wedi dod ar eu traws. Cyfle da i baratoi consiwmer riport i'r Dinesydd. Roedd y bwyd yn fendigedig. Er mwyn creu'r naws iawn, chwaraeais y record Mull of Kintyre yn uchel yn y cefndir wrth fwyta'r pasteiod, ac yn wir teimlodd y musus a minnau ein bod yn bwyta yng nghegin Paul a Linda, gyda Linda yn paratoi ei danteithion yn arbennig i ni. Gofynnais i Paul a oedd unrhyw obaith i'r Beatles ailffurfio, pan sylweddolais yn sydyn nad oeddwn yng nghegin y Mc Cartneys wedi'r cyfan.

Y fath ddadrithiad.

HEL MEDDYLIAU

## GLYWSOCH CHI HON?

HUW ETHALL

**IDDEW YN MARW** a Duw yn ei gyfarfod. "Wyt ti wedi cadw'r Torah (y Gyfraith)?" gofynnodd Duw iddo. "Na" meddai'r Iddew. "Gofiaist ti ddweud dy bader bob dydd?". Na oedd yr ateb eto. "Wel wyt ti o leiaf wedi cadw'n ffyddlon i dy wraig?". Na oedd yr ateb. "Dere mewn i'r Deyrnas" meddai Duw. "Dod i mewn?" gofynnodd yr Iddew yn syn, "a minnau wedi cyfadde fy mod i'n odinebwr, heb ddweud fy mhader bob dydd na chadw'r Torah?". "Ie," meddai Duw, "rwyt ti wedi dweud y gwir."

Dyma un o storiau annisgwyl cyfrol ddifyr ond dadleuol ***Jesus*** gan AN Wilson, cyfrol gafodd sylw mawr a beirniadaeth fwy. Yn ôl y stori Rabbinaidd hon, cymeriad Duw – ei faddeuant mawr, ei drugaredd anesboniadwy, ac ati – sy'n bwysig, ac nid moesoldeb dyn.

Beth bynnag a ddywedwyd ac a ysgrifennwyd mewn beirniadaeth o'r gyfrol, un yn chwilio am y gwirionedd yw AN Wilson ac mae hynny, siwr o fod, yn rhinwedd – er yn codi gwrychyn ambell un ceidwadol ei ddiwinyddiaeth. Mae'n ceisio dod o hyd i'r gwir am Iesu yng nghanol yr holl dybiaethau a chamysgrifennu hanes amdano.

Honna, er enghraifft, na allasai Herod fod yn frenin Judea, na Cyrenius yn llywodraethwr ar Syria adeg geni Crist. A pham croniclo stori atgyfodiad Lasarus yn Efengyl Ioan yn unig, ac nid yn yr Efengylau Synoptaidd i gyd – a'r hanes mor chwyldroadol a dweud y lleiaf? Pam hyn? Pam y llall? Mae'r ymchwil yn ddiddiwedd.

Ond pan gyll y call, fe gyll ymhell meddai'r hen air. Dyma gymal a'm swynodd yn fawr iawn, wrth iddo sôn am Mair a Martha: "Jesus rebuking Martha for being 'cumbered about much serving' rather than joining in the conversation like her lazier sister". Lazier sister wir! Mair ddiog ond Martha ddiwyd ie?

Pechod Mair, mae'n amlwg, oedd eistedd i wrando ar Iesu. Ond mae eistedd ac eistedd wrth gwrs, a phan ddylasai Martha fod yn eistedd roedd yn cerdded i mewn ac allan i'r gegin yn ddiddiwedd. "Mae amser i bob peth" meddai Llyfr y Pregethwr. Eistedd mewn myfyrdod a wnâi Mair.

Honna TH Parry-Williams yn ei ysgrif *Llenydda* yn ei gyfrol ***Synfyfyrion*** mai ffrwyth myfyrdod yw pob llenydda. "Yn llenyddol, ar fyfyrdod, y mae dyn yn byw" meddai. Yna mae'n dyfynnu geiriau'r Salmydd "Tra roeddwn yn myfyrio, ennynodd tân a mi a lleferais â'm tafod". Dim rhyfedd iddo alw ei gyfrol yn ***Synfyfyrion*** a'i ddwy gyfrol arall yn ***Myfyrdodau*** a ***Pensynnu***.

Yng nghanol ein byd a'n byw prysur, byddai'n dda cael mwy o eistedd, ac eistedd mewn myfyrdod. Mae hynny'n sicr yn rhan o bob gwir addoliad.

Mair ddiog wir!

# CLWB IFOR BACH

**11 HEOL WOMANBY, CAERDYDD CF1 2BR**
**0222 232199**

## TACHWEDD YN IFOR BACH

### PWYLLGOR NEWYDD

Croeso mawr i Robin Huws, *Miranda Morton*, Eleri Twynog, Richard Grigg a Gwilym Roberts. Dyna'r pump a etholwyd i fod yn aelodau newydd o bwyllgor y clwb yn y cyfarfod cyffredinol a gynhaliwyd yn ddiweddar. Braf yw cael chwistrelliad o waed ifanc (gan gynnwys Gwilym) i ddod â syniadau newydd i'r pwyllgor ac i lywio gwaith y clwb dros y flwyddyn. Hefyd ail-etholwyd Glyn Hughes i barhau ei waith clodwiw fel ysgrifennydd, gyda chyfrifoldeb am ddatblygiad masnachol y clwb.

### DATHLU'R DEG

Mae'n ffasiynol iawn y dyddiau hyn i ddathlu penblwydd sefydliadau. Yn dilyn chwarter canrif o ganolfan yr Urdd a degawd o S4C, byddwn ninnau hefyd yn meddwl am ddathlu degawd erbyn yr haf nesaf. Anodd credu bod mwyafrif aelodau presennol y clwb yn mynychu ysgolion cynradd yn hytrach na chlybiau nos pan agorwyd y drysau am y tro cyntaf ddechrau Gorffennaf 1983. Bydd eleni yn gyfle i ddysgu ychydig o hanes y clwb iddyn nhw – ac yn gyfle am sawl pregeth am ragoriaethau'r hen ddyddiau! Tybed oes gan S4C ambell i botel o siampaen yn sbâr ar ôl eu dathliadau mawr?

### SEINIAU SWYNOL

Mwyhaduron, darseinyddion, a microffonau fu testun trafodaeth mewn sawl cyfarfod gennym yn ddiweddar. OK. Amplifiers, speakers a microphones i chi wylwyr Heno. Bydd connoisseurs y byd roc yn falch o glywed ein bod yn bwriadu buddsoddi mewn system sain a goleuadau newydd a chynhwysfawr i'r neuadd ac i'r lolfa yn y dyfodol agos. Am bris a fyddai'n prynu ambell i dŷ hyd yn oed yng Nghaerdydd, fe fydd gennym system sain i ymhyfrydu ynddo ac yn ddigonol i fyddaru pawb. Cyn bo hir bydd seiniau peraidd grwpiau pop Cymraeg ledled y ddinas bob nos Sadwrn.


### DIWRNOD MAWR YN RHAGFYR

5 Rhagfyr, diwrnod arbennig i'ch dyddiadur. Dyna pryd cynhelir Gŵyl Roc Clwb Ifor am y tro cyntaf erioed, gyda amrywiaeth o weithgareddau yn gysylltiedig â'r byd roc yn digwydd yn ystod y dydd. Cynhelir Ffair Recordiau yn ystod y prynhawn, a hefyd Sesiwn Bach (di-alcohol), gyda'r grwp Diffiniad a disgo i blant ysgol, rhwng 3.00 a 5.00pm. Bydd sesiwn y nos yn dechrau am 6.00pm ac yn parhau hyd at oriau mân y bore, gyda 6 i 7 o wahanol grwpiau yn perfformio, gan gynnwys Bob Delyn, Diffiniad a Dom. Diwrnod hir a noson fawr i'r rhai sydd â'r stamina!

### Y FUWCH GOCH YN PERFFORMIO

Fis neu ddau yn ôl soniwyd am atgyfodi cwmni drama'r clwb, sef Cwmni'r Fuwch Goch. Braf yw gallu sôn am eu cynhyrchiad cyntaf erbyn hyn, sef Noson yn y Clwb, drama a fydd yn cael ei pherfformio am y tro cyntaf yng nghystadleuaeth ddrama Tafod Elai ar ddiwedd Tachwedd. Bydd cyfle hefyd yn y dyfodol i'w gweld yn cael ei pherfformio yn y clwb – addas iawn o ystyried y teitl! Yn ôl pob sôn, prif gymeriadau'r sioe yw porthorion (neu bownsers) y clwb – brîd anghyffredin o ddyn sydd wedi hen arfer cael eu dilorni gan bawb, ond dyma'r tro cyntaf ar lwyfan!

# CROESAIR AP LEWSYN
## RHIF 124 TACHWEDD 1992



***Ar Draws***

1. Clymwyd yr ancr ganddynt yng nghlwm eu dwy rhaff (6)
5. Rhai twyllodrus sy'n chwarae â'u credo hwy (8)
9. Anodd i halen ei wella yn deilwng (10)
10. Ar fai yn ôl y rheithgor (4)
11. Astudiaeth o ieithoedd traddodiadol Rhufain a Groeg (8)
12. Trefnwyd y modd i'r aelodau ymgyflwyno i'r amcan (6)
13. "Llew o beth yw tad llo bach!" (4)
15. O rhain i fyny y byddwch yn sefyll allan (8)
18. "Carodd eirau ________" (Beddargraff Ceiriog) (8)
19. Arfogaeth yr ymosodwr nerthol (4)
21. Ffrwyth y rhosyn gwyllt (6)
23. Dyna system athronyddol fyddai cael wyth Hegel yn un llinach! (8)
25. Mae gan bob Cardi o sylwedd galon, yn ddiamau (4)
26. Dorau handi i fynd i mewn i drefniadau oddi uchod (10)
27. Pwt o'th gam yn baglu mewn man crugynnog (8)
28. Heb yr un pwynt ar y bwrdd (6)

***I Lawr***

2. "Drws yr ________ yn agored" (5)
3. Clydwch y bwythyn sydd i'w deimlo drwy'r dydd o'i ddrws (9)
4. "Mae ynys yn ________
   Ac awel ym Mhorthcawl" (RWP) (1,5)
5. Mae hwn yn meindio ei fusnes ei hun (5-10)
6. Costag anwir (8)
7. Pridd y drydedd blaned (5)
8. M4 o bosib (1,4,4)
14. SH 7629 (9)
16. Mi dreiais yn galed i gael S i edrych am ddatrysiad (9)
17. Mae'r dydd canlynol yn swnio'n reit foel (8)
20. Coed dwy N yn y neges gyffrous (6)
22. Yr hen Roegwr chwedlonol (5)
24. O'r lle hwn mae'r nodyn cyntaf yn mynd (5)

***"Y croesair Cymraeg sy cystal â chroesair y Times"***

*Tom Arfon Owen, a ddaeth yn bedwerydd yn rownd derfynol croesair y Times 1992*

***Datrysiad rhif 123***



***Cystadleuaeth rhif 123***

Derbyniwyd 16 ymgais, a 13 ohonynt yn gywir. Yr enw a dynnwyd o'r pentwr oedd eiddo Bryn Jones, Llangynnwr, Caerfyrddin, a bydd tocyn llyfr ar ei ffordd iddo'n fuan. Roedd y rhai canlynol hefyd yn gywir: Michael Francis, Casnewydd; Heled Hall, Treganna; Dilys Gunston, Cyncoed; Huana Simpson, y Bontfaen; Marged Davies, Llandaf; Hilda M Ethall, Rhiwbeina; Sylvia Evans, Cathays; Marion Lake, Llanfihangel-ar-Elai; John G Breese, Glan-yr-Afon; BH, Cyncoed; James Wiegold, Rhiwbeina; a Jayne Rees, Pontypridd

***Cystadleuaeth rhif 124***

Tocyn llyfr am £5 eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 1 Rhagfyr.

**LYNN JONES**

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

## SÊR MIS TACHWEDD



EIRY PALFREY

### ARIES

Mae'n bryd i chi newid cyfeiriad. Bydd gofyn newid eich agwedd tuag at eich agwedd tuag at eich angherian syflaenol yn eich perthynas agos, a'ch gwaith. Mae rhywun am eich gwaed. Ydych chi wedi gwneud gelynion heb wybod efallai?

### TAURUS

Byddwch yn garcus iawn gyda'ch arian y mis yma. Peidiwch â gwario'n wirion, a pheidiwch chwaith â datgelu'ch sefyllfa ariannol i neb dieithr. Cymrwch ofal wrth deithio, yn enwedig yn ystod dyddiau cynnar y mis.

### GEMINI

Fe allai hwn fod yn fis rhamantus iawn, ond i chi chwarae'ch cardie'n iawn gyda Rhywun arbennig. Fe allai droi allan i fod yn fis cyffrous iawn, gyda llawer o ddigwyddiadau annisgwyl yn enwedig ar y ffrynt gymdeithasol.

### CANSER

Dylai hwn fod yn fis cymdeithasol i chithau hefyd, gyda digon o hwyl a sbri – ond cymrwch ofal i beidio â mynd dros ben llestri. Fe allech syrthio am rywun cwbwl anaddas y mis yma, a chael eich brifo os na fyddwch yn ofalus.

### LEO

Rhaid eich rhybuddio rhag bod yn rhy fyrbwyll y mis yma – rhag ofn i chi agor eich ceg a rhoi eich troed ynddi. Cymrwch ofal o'ch iechyd, mae'n bosib y byddwch yn bwyta rhywbeth fydd yn anghytuno â chi, ac mae mân ddamweiniau'n bosib yn y gwaith.

### VIRGO

Mae llwyddiant yn bosib y mis hwn, yn enwedig os ydych yn bwriadu sefyll arholiad o unrhyw fath. Mae cyswllt cryf rhwng teithio a materion y galon y mis yma – mae'n eitha tebyg y daw rhywun arbennig iawn i'ch bywyd cyn bo hir.

### LIBRA

Mae'r blaned lwcus lau wedi symud i'ch arwydd erbyn hyn, gan ddod â llwyddiant a ffyniant o bob math i'ch bywyd. Dylech wneud yn dda iawn mewn materion creadigol o bob math – ond mae'n bosib y byddwch yn ennill pwysau hefyd!

### SGORPIO

Dyma'r mis gorau yn y flwyddyn i chi – ond er hynny byddwch yn barod i ddelio â phroblemau cyfreithiol ac ariannol. Bydd gofyn i chi bwyso a mesur cyn gwario'ch arian ar eitem ddrud – gall rhywun geisio'ch twyllo.

### SAGITTARIUS

Rydych yn seicig iawn ar hyn o bryd. Trystiwch eich greddf, yn enwedig â phobol ddieithr. Cymrwch sylw o'ch breuddwydion, fe gewch chi rybudd amserol. Gallai hwn fod yn fis rhamantus iawn, os derbyniwch yr annisgwyl!

### CAPRICORN

Mae tipyn o oedi o'ch cwmpas, yn enwedig os ydych am werthu neu brynu tŷ neu gar. Amynedd piau hi, daw pethau'n well o lawer cyn hir. Os oes problem y galon gyda chi, cymrwch gyngor oddi wrth ffrind agos.

### AQUARIUS

Os ydych mewn cyfyng gyngor ynglŷn â'ch gwaith neu'ch bywyd personol, rhannwch y broblem â chyfaill agos. Mae dau ben yn llawer gwell nag un nawr, yn enwedig am fod eich teimladau braidd yn gymysglyd nawr.

### PISCES

Falle bydd taith dyngedfennol yn dod â rhamant i'ch bywyd y mis hwn. Mae'n sicr bod llawer o deithio o'ch blaen, cadwch feddwl a chalon agored, ac fe allai droi allan i fod yn fis cyffrous iawn. Falle bydd hen ffrind yn symud allan o'ch bywyd.

# ANRHEG NADOLIG I'R DINESYDD

## CALENDAR

**15 TACHWEDD**
Rhaglen nodwedd Matthews Ewenni, Salem, Treganna

**16 TACHWEDD**
Y Gymdeithas Wyddonol. Crefydd a Gwyddoniaeth, Dr Neville Evans, Clwb Ifor Bach

**16 - 18 TACHWEDD**
Cwmni Theatr Gwynedd, Y Gosb Ddiddiwl, Sherman, 7.30pm

**17 TACHWEDD**
Noson o Fiwsig, Catrin Lloyd a'i Ffrindiau, Cymdeithas Nos Fawrth, y Tabernacl, 7.30pm

**20 TACHWEDD**
Clwb Ifor Bach, Amddiffyn

**21 TACHWEDD**
Ffair Nadolig Ysgol Feithrin y Waun, yn y Neuadd Gymunedol, King George V Avenue, 10am - 12am

**24 TACHWEDD**
Galw am Gymorth, Parch Jeffrey Williams, Cymdeithas Nos Fawrth, y Tabernacl, 7.30pm

**28 TACHWEDD**
Clwb Ifor Bach, Y Profiad

**4 RHAGFYR**
Cymrodorion Caerdydd, gyda Dr Owen Edwards, Capel Ebeneser 7.15pm

**5 RHAGFYR**
Sêr yn Salem, Capel Salem, Treganna

Ffair Nadolig Ysgol Glantaf, 1.30pm, yn yr ysgol uchaf yn Ystum Taf

Gŵyl Roc Clwb Ifor
2.00pm Ffair Recordiau; 3.00pm Sesiwn Bach (di-alcohol) Diffiniad; 6.00pm Bob Delyn, Dom, Diffiniad, ac eraill

**8 RHAGFYR**
Canu'r Nadolig. Côr dan arweiniad Rhian Jones. Cymdeithas Nos Fawrth y Tabernacl, 7.30pm

Cymdeithas Cornhuanawc. Mi Llywarch - Tithau Llewelyn, Dr Elin Jones, Clwb Ifor Bach

**11 RHAGFYR**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd gyda Tom Ellis Jones Cerddoriaeth y Nadolig. Neuadd Bethel, 7.30pm

## GWYLIAU

# PAMPAS A PHANED

**ARCO IDRIS** yw'r cwmni newydd yng Nghaerdydd sy'n arbenigo mewn trefnu teithiau i Batagonia.

Tuedd llawer o bobol yw meddwl bod y Wladfa'n rhy bell i fynd iddi er mwyn cael gwyliau – ond mae'n nes o lawer na Seland Newydd neu Awstralia.

Pam tybed mae cyn lleied o sôn am le arall mor fendigedig sydd bron heb ei ddarganfod gan ymwelwyr – gwlad yr eangderau maith, o ddiffeithwch gwastadeddau'r gogledd, ar hyd trefi a phentrefi'r Andes, hyd at fynyddoedd rhew Tierra Del Fuego ym mhegwn y De. Nid heb reswm y cafodd Patagonia ei galw'n wlad y rhew a'r tân.

Patagonia yw'r unig le y tu allan i Gymru lle medrwch ddal i glywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn naturiol. Ddylai'r Cymry ddim cael trafferth cyfathrebu (ac eithrio'r rhai sy'n arfer Cymraeg Seisnig sathredig, sydd heb ddylanwadu ar y Wladfa).

Rhamant hanes Patagonia sydd wedi denu'r rhan fwyaf o Gymry fu yno hyd yma, gan droi o gwmpas y capeli, amgueddfeydd, a phaned o de Cymreig i ddilyn. Ond mae gan y lle lawer iawn mwy i'w gynnig.

Rhyddid, ehangder heb fawr o ffiniau, ac yn ddilygredig, dyna sy gan Batagonia i'w gynnig. Fel yn nyddiau Michael D Jones mae'r wlad yn rhydd o ddylanwad Seisnig, a chyfle yno i'r sawl sy'n chwilio am rywbeth gwahanol.



Ar hyn o bryd mae Arco Idris yn canolbwyntio ar hybu pysgota helwriaeth yn llynnoedd anghysbell godre'r Andes, a hefyd ar gael mae gweithgareddau fel mynydda, marchogaeth dros y paith, ffotograffiaeth bywyd gwyllt, canwio, hwylio, sgïo ac ati. Ac i'r rhai sy'n mynnu, mae'n bosib gorffen y diwrnod mewn tŷ te traddodiadol!

## SÊR YN SALEM

# SÊR CYN DOLIG

**YN SGÎL** yr hysbysiad yn y Dinesydd y mis diwethaf am Sêr yn Salem, gallwn nawr gyhoeddi enwau rhai o'r artistiaid fydd yn cymryd rhan yng Nghyngerdd Blynyddol Capel Salem, Treganna, ar nos Sadwrn, 5 Rhagfyr am 7.30pm.

Arfon Haines Davies, un o aelodau'r eglwys fydd wrth y llyw i gyflwyno Eirlys Parri ac Euros Rhys Evans, Betsan Gerallt a'i chyfeillion, Brinley Jenkins, plant Ysgol Melin Gruffydd, ac Offerynwyr Glantaf gyda'u harweinydd Delyth Medi.

Fel sy wedi digwydd yn y blynyddoedd cynt, mae'n siwr y bydd 'na un neu ddau o gymeriadau enwog yn taro mewn ar y funud olaf i ddifyrru'r gynulleidfa.

Fel mae ffyddloniaid Sêr yn Salem yn gwybod, codi arian i helpu'r mudiadau sy'n cynnal trueiniaid y Trydydd Byd yw bwriad y noson. Eleni, fwy nag erioed, mae angen arian dibendraw ar gyfer y miloedd ar filoedd sy'n dioddef o newyn a syched ar draws y byd.

Felly dewch yn llu i Salem i gyfrannu at yr achos ac i fwynhau noson arbennig iawn ychydig wythnosau cyn y Nadolig.

# Anrheg Nadolig i'r Dinesydd

## – a'i gael drwy'r post!

## TANYSGRIFIWCH £15 I DINESYDD 2000

***Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at***
***Dinesydd 2000***
***℅ Surrexit Cysylltiadau Torfol***
***Rhadbost - Freepost***
***Parc Afon, Bridge Road***
***Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ***

Tachwedd 92

***Dymunaf gyfrannu'r swm isod yn flynyddol i Dinesydd 2000***

☐ **£15**

☐ **swm arall (nodwch faint) £** ______

Enw: ______

Cyfeiriad: ______

Rhif ffôn: ______

Dymunaf dalu â siec ☐ ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐

archeb banc ☐ (llenwch isod)

***Archeb Banc***

I Fanc ccc ______

Cangen ______

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £ ______ i ddechrau ar ___/___/___ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dilëwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/gennym, a debydu fy/ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu ______

Rhif y cyfrif ______


Llofnod(ion) ______

Dyddiad ______

AR Y GWEILL

# PATRWM Y DOLIG: SIWMPER DYN EIRA






**ALLWEDD**

x : gwlân gwyn
o: gwlân melyn

**Cofiwch eich bod chi'n llenwi corff y dyn eira â gwlân gwyn hefyd!**

## PARATOI

### 1. DEFNYDD

Gwauwyd y siwmper o wlân Chevy Gwau Dwbwl (DK) sy'n dod mewn peli 100g

| | | | |
|---|---|---|---|
| Maint | 20"/51cm | 22"/56cm | 24"/61cm |
| Hyd | 13"/33cm | 15"/38cm | 16½"/42cm |
| Hyd llewys | 8"/20cm | 10½"/27 | 12½"/32cm |
| Defnyddiau | 100g | 100g | 100g |
| Du | 1 | 2 | 2 |
| Gwyn | 1 | 1 | 1 |

Tua 10g o felyn i'r het (neu unrhyw liwiau eraill)
Tua 10g o goch i'r sgarff (neu unrhyw liwiau eraill)
Mae angen tua 20g o wlân gwyn ar gyfer y dyn eira, a darnau tua 17"/43cm o hyd i'r plu eira

### 2. TENSIWN A GWEILL

Tensiwn 12 pwyth ar led, 14 rhes ar hyd i 2"/5cm
Gweill rhif 4mm, rhif 3¼mm

### 3. TERMAU

Codi'r pwythau: cast on
Cau'r pwythau: cast off
Gwau o dde, gwau o chwith: knit, purl
Gwau 2 ynghyd: knit 2 tog
Pwyth plaen: stocking stitch
Pwyth gardas: garter stitch
Cynyddu: increase

## BWRW ATI

### 4. Y BLAEN

1. Gweill 3¼mm, gwlân du
2. Codi 68 (76;84) pwyth
3. Gwau 1 o dde, 1 o chwith am 2"/5cm
4. Newid i'r gwlân gwyn a'r gweill 4mm
5. Cynyddu 1 yn y pwyth cynta 69 (77;85) pwyth
6. Gwau pwyth plaen am 16 (20;20) rhes
7. Newid i'r gwlân du a dilyn y siart o res 1 i 47 (55;36)
8. Rhes 47 (55;63). Gwau 29 (33;37)
9. Trowch, a dilynwch y siart gan wau 2 bwyth ynghyd am 7 rhes wrth ymyl y gwddf 22 (24;28) pwyth
10. Gwau 6 (6;8) rhes i'r diwedd. Cau'r pwythau
11. Gwau'r ochr arall yn yr un modd

### 5. Y CEFN

1. Gwau fel y blaen o 1 i 7 (yn gynwysiedig)
2. Dilyn y siart o res 1 i 60 (70;80) gan adael allan y dyn eira. Gwau pluen eira lle mae'r het ac un yng nghanol y dyn eira. Peidio â siapio'r gwddf.
3. Gadewch 25 pwyth (29;29) ar gefn y gwddf ar edafedd
4. Cau gweddill y pwythau

### 6. LLEWYSAU

Gallwch wau'r llewys yn ddu i gyd neu â phlu eira hwnt ac yma

1. Gweill 3¼mm. Gwlân du, codwch 30 (32;34) pwyth. Gwau 1 o dde, 1 o chwith am 2"/5cm
2. Rhes nesa gwau 4, * cynyddu pwyth, gwau 1 bob cam* tan y 4(5;6) pwyth ola 41(44;47) pwyth
3. Newid i weill 4mm, a gwau plaen
4. Cynyddu 1 pwyth ar bob pen o'r drydedd a phob pedwaredd res nes bod 61(68;79) pwyth ar y gweill
5. Gwau nes bod y llewys yn mesur 8" (10½";12½")/ 20cm (27;32cm). Cau'r pwythau

### 7. BORDER Y GWDDF

Gwnio sêm yr ysgwydd dde
Gweill 3¼mm, gwlân du

1. Gan ddechrau ar yr ysgwydd chwith, codi 15 (17;19) pwyth ar hyd yr ochr chwith, gwau yr 11 (13;13) pwyth o'r edafedd ar flaen y gwddf Codi 15 (17;19) ar hyd yr ochr dde, gwau 25 (29;29) o'r cefn 66 (76;80)
2. Gwau 1 o dde, 1 o chwith am 7 rhes
3. Gydag ochr dde y siwmper yn eich wynebu, gwau y rhes nesa i gyd o chwith
4. Gwau'r 7 rhes nesa 1 o dde, 1 o chwith
5. Cau'r pwythau yn llac


### 8. GORFFEN

Y sgarff: gwlân coch, 5 pwyth ar weill 3¼mm

1. Gwau pwyth gardas. Gwnewch 2, un tua 3½"/8cm, un tua 4½"/11cm
2. Gyda'r gwlân du, gweithiwch llygaid, trwyn a cheg ar y dyn eira. Gwniwch y sgarff am ei wddf, a'i chlymu
3. Gwniwch yr ysgwydd dde a border y gwddf. Trowch y border nôl i'r chwith a'i wnio'n llac
4. Gwniwch semau'r ochrau gan adael tua 5"(6"; 6½")/13 (15;17)cm i'r llewys.
5. Gwniwch semau'r llewys
6. Gwniwch y llewys i mewn i'r siwmper

© Patrwm M Jones 1992

# YN ÔL MEWN PRINT




Esbonir pob idiom, rhoddir ei ystyr llythrennol a cheir enghraifft o'r priod-ddull mewn brawddeg.
The meaning of each idiom is explained and an example of the idiom in the context of a sentence is provided.
**£3.95**

Chwaer gyfrol i *Lluniau Llafar* ond y tro hwn ymdrinir ag idiomau wedi eu seilio ar yr arddodiad.
A similar volume to *Lluniau Llafar* but in this case all the idioms are based upon prepositions.
**£4.50**

**Llyfr Ti a Fi**—Anne Brooke
A handbook for parents, toddlers and babies who are learning Welsh.
**£5.75**

GOMER

**Ffôn 0559 362371**
**Ffacs 0559 363758**

*Amgueddfa Genedlaethol Cymru*



# *Y Goeden Nadolig*

yn
**AMGUEDDFA WERIN CYMRU**
**Sain Ffagan, Caerdydd**

*6.00 - 9.00pm, Mercher/Iau/Gwener, 9/10/11 Rhagfyr 1992*
*(Drysau ar agor am 5.40pm)*
*Mynediad am y tâl arferol neu drwy Docyn Tymor*
*Gostyngiad i bartïon (20 person neu fwy) sy'n archebu ymlaen llaw*

*Diod Nadolig a Mins Pei – am ddim!*
*Siôn Corn yn Dosbarthu Taffi*
*Canu Carolau yng Nghapel Pen-rhiw*
*Y Fari Lwyd   Dawnsio Gwerin*
*Addurniadau Traddodiadol yn Nhai Rhyd-y-car*
*Band Pres   Crefftwyr yn Arddangos*
*Ffair Grefftau   Stondinau Loshin*

*I gyd ar agor: Siop yr Amgueddfa, Siop Gwalia*
*Y Lle Bwyta   Bwydlen Dymhorol, Popty'r Dderwen*

*Dowch â fflachlamp!*

*Y brif fynedfa: oddi ar yr M4 (Cyffordd 33)*
Gwybodaeth bellach: Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd CF5 6XB. Ffôn (0222) 555105

# CYNNIG Y TYMOR

## yn **Oriel** - ble arall?

❄

Cynnig arbennig eleni ar gyfer y Nadolig ar gael 'nawr.

**Y GEIRIADUR CYFOES / THE MODERN WELSH DICTIONARY**

100,000 o eiriau a diffiniadau adolygiad cyflawn
Pris gwerthu arferol **£9.99**
Pris anghredadwy o **£6.99**
i siopwyr personol yn Oriel.

# ARBEDWCH £3

Galwch heibio am eich copi heddiw.

❄

***AGORIAD HWYR AR GYFER Y NADOLIG***

***Dydd Iau Tachwedd 12***
***hyd at 8 yr hwyr***

***Dydd Iau Rhagfyr 3***
***hyd at 9 yr hwyr***

***Dydd Iau Rhagfyr 10***
***hyd at 9 yr hwyr***

***Dydd Iau Rhagfyr 17***
***hyd at 9 yr hwyr***




Oriel, Siop Lyfrau Cyngor y Celfyddydau
Heol Tŷ'r Brodyr, Caerdydd CF1 4AA

***CYNHYRCHIAD DISGLAIR NEWYDD O WAITH GILBERT & SULLIVAN***

# MIKADO

Y Corws a'r Gerddorfa Operetta Genedlaethol
Arweinydd: Richard Balcombe
Cyfarwyddwr: Tom Hawkes
Coreograffeg: Jill Francis

***Yn dod i Gaerdydd am y tro cyntaf, cynhyrchiad llwyfaniad cyfan, cwbl broffesiynol, mewn gwisgoedd trawiadol – anrheg heb ei ail ar gyfer y Nadolig!***

**28, 29 a 30 Rhagfyr 7.30pm**
**30 Rhagfyr 2.30pm**




**Neuadd Dewi Sant**

**TOCYNNAU ☎ (0222) 371236/235900**

[illegible]